**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | L S Gibbard | K M Griffiths |
| W G Lewis | S Pritchard | K M Roberts |
| B J Rowlands | L J Tyler-Lloyd | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, J A Hale, S M Jones, E T Kirchner, I E Mann, C Richards a/ac G J Tanner

---

## 15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## 17 Amser cyfarfodydd y cyngor - Arolwg.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am ganlyniad Arolwg y Cynghorwyr ar Amseru Cyfarfodydd y Cyngor.

Mae Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn bod yr awdurdod yn cynnal arolwg o gynghorwyr ynghylch amser ac amlder cyfarfodydd y cyngor o leiaf unwaith yn ystod pob tymor y weinyddiaeth.

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, bernir ei bod hi'n briodol i beidio â chynnal yr arolwg hwn yn syth ar ôl yr etholiad er mwyn caniatáu peth amser i'r cynghorwyr ddeall gofynion bod yn gynghorydd a'r ymrwymiad amser

angenrheidiol. Oherwydd hynny, gohiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr arolwg tan 21 Rhagfyr 2017, gyda'r arolwg yn dod i ben ar 12 Ionawr 2018.

Amlinellwyd yr arolwg, a gwblhawyd gan 60 allan o'r 72 o gynghorwyr, a'r canlyniadau yn Atodiad B yr adroddiad.

Trafododd y pwyllgor y materion amrywiol a all effeithio ar bresenoldeb cynghorwyr mewn cyfarfodydd, megis cyflogaeth, cyfrifoldebau gofal, iechyd a chludiant gyhoeddus. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd unwaith eto fod y cynghorwyr yn gallu hawlio hyd at £403 y mis fel ad-daliad o gostau gofal. Anogodd y cynghorwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu i ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Cydnabu'r cynghorwyr na fyddai amserau'r cyfarfodydd yn addas i bawb yn anffodus, felly penderfynwyd mai'r cam gweithredu mwyaf addas fyddai i barhau â'r fformat presennol a chaniatáu i bob aelod o'r pwyllgor ystyried amseriad ei gyfarfodydd yng nghyfarfod cyntaf pob pwyllgor. Nodwyd y byddai'r pwyllgor yn gallu newid amser y pwyllgor yn unig, ac nid y diwrnod.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Drafftio dyddiadur y cyngor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019 gan gynnal fformat dyddiadur Blwyddyn Ddinesig 2017-2018;
3) Y bydd "Amser cyfarfodydd y dyfodol" yn eitem safonol ar yr agenda yng nghyfarfod cyntaf pob pwyllgor.

**18 Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr 2016-2017. (Diweddariad ar lafar)**

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y diweddaraf ar lafar ar nifer yr adroddiadau blynyddol gan gynghorwyr a dderbyniwyd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

Hyd yn hyn, roedd 42 allan o 53 o gynghorwyr sy'n dychwelyd wedi cwblhau adroddiad blynyddol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar-lein maes o law.

Nid oedd y cynghorwyr a etholwyd am y tro cyntaf ym mis Mai 2017 yn gymwys i gwblhau adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-2017 gan nad oeddent yn gynghorwyr yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, roedd nifer o gynghorwyr newydd eu hethol wedi cyflwyno paragraff byr am eu gweithgareddau a gyflawnwyd ers eu hethol, a oedd wedi'i gyhoeddi yn yr adran "amdanaf i" ar eu tudalen ar wefan y cyngor. Gallai pob cynghorydd newydd eu hethol yn 2017 ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ymlaen i ddatgan y byddai'n hysbysu'r pwyllgor am y ffigurau terfynol yn y cyfarfod nesaf. Byddai'r pwyllgor hefyd yn adolygu fformat yr Adroddiad Blynyddol gan nad oeddem wedi ystyried hyn ers ei weithredu yn 2012.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 19 Addewid Cynghorwyr ar Safonau. (Diweddariad ar lafar)

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod 61 allan o 72 o gynghorwyr wedi llofnodi Addewid y Cynghorydd ar Safonau.

Byddai'r ffurflenni hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 20 Protocol Datrys Anghydfod Lleol rhwng Cynghorwyr. (Diweddariad ar lafar)

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod 69 allan o 72 o gynghorwyr wedi llofnodi'r Protocol Datrys Anghydfodau Lleol rhwng Cynghorwyr.

Roedd yn obeithiol y byddai'r 3 cynghorydd sy'n weddill hefyd yn llofnodi maes o law.

Byddai'r ffurflenni'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 21 Cynllun Gwaith.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod 69 allan o 72 o gynghorwyr wedi llofnodi'r Protocol Datrys Anghydfodau Lleol rhwng Cynghorwyr.

Roedd yn obeithiol y byddai'r 3 cynghorydd sy'n weddill hefyd yn llofnodi maes o law.

Byddai'r ffurflenni'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.22 pm

**Cadeirydd**